BETH YW WYTHNOS LLYFR YN ANRHEG?

Cyfle i bobl roi llyfrau'n anrhegion i'w gilydd er mwyn rhannu'r pleser sydd i'w gael wrth ddarllen.

WYTHNOS LLYFR YN ANRHEG

27.02.10–06.03.10

SUT GALL YSGOLION GYMRYD RHAN YN WYTHNOS LLYFR YN ANRHEG?

Dyma ambell awgrym:

- trwco/ffeirio llyfrau – mae cyfnewid llyfrau'n hwyl!
- rhoi llyfr newydd sbon yn anrheg i unrhyw un o'ch disgyblion sy'n dathlu pen-blwydd rhwng 27 Chwefror a 6 Mawrth.
- aelodau o staff i roi llyfrau'n anrhegion i'w gilydd yn ystod yr Wythnos.
- oes 'na aelod o staff a fydd yn dathlu pen-blwydd rhwng 27 Chwefror a 6 Mawrth? Byddai'n braf petai'r pennaeth yn cyflwyno llyfr yn anrheg iddo/iddi yn ystod y cyfarfod staff neu'r gwasanaeth.
- gwahodd rhieni i anfon llyfrau y maent wedi gorffen â nhw i'r ysgol a chyflwyno'r rhain i siopau elusen lleol.
- os yw'ch ysgol wedi ei gefeillio ag ysgol arall, beth am anfon llyfrau'n anrheg iddyn nhw i nodi'r Wythnos?
- cefnogi gwaith Book Aid International.
- prynu llyfrau i'w rhoi i gartrefi henoed, cartrefi plant, llochesi menywod, ysbytai ac ati.
- sefydlu cynllun Teuluoedd yn Cyflwyno Llyfrau – cynllun sy'n annog pobl i brynu llyfrau i'w plant, wyrion, neiaint neu nithoedd. Pan fydd y plentyn wedi darllen y llyfr, caiff ei roi'n anrheg i lyfrgell yr ysgol a chaiff tystysgrif sy'n nodi enw'r teulu ei rhoi y tu mewn i'r llyfr. Mae hon yn ffordd dda iawn o sicrhau bod llyfrgell yr ysgol yn cael stoc newydd yn rheolaidd ac yn gyswllt gwerthfawr rhwng y gymuned a'r ysgol. (Diolch i Ysgol Gynradd Danygraig, Abertawe, am y syniad hwn.)

DIWRNOD Y LLYFR 04.03.2010

http://llyfrynanrheg2010giveabook.cllc.org.uk

CYNGOR LLYFRAU CYMRU